Minutes

Cyngor

Date:	Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021
Time:	5.00 pm
Present:	Councillors J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, J Richards, M Spencer, T Suller, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend, J Watkins, A Morris, F Hussain and J Jones
Apologies:	Councillors H Thomas, M Whitcutt, V Dudley and T Holyoake

1. **Rhagofynion**

1.i Ymddiheuriadau

Fel uchod.

1.ii Datgan Buddiant

Dim.

1.iii Cyhoeddiadau'r Maer

Dim.

2. **Cofnodion**

Cymeradwywyd bod cofnodion 28 Medi 2021 yn gywir.

3. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

Dywedodd y Cynghorydd Harvey wrth y Cyngor fod yr Is-bwyllgor Penodi wedi penodi Cyfarwyddwr Strategol newydd ar gyfer yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion newydd yn ddiweddar, fel yr amlinellir isod. Llongyfarchodd y Cynghorydd Harvey Paul Jones a Mary Ryan ar gael eu penodi'n llwyddiannus.

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi cytuno arnynt, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod.

Penderfynwyd: Cytuno ar y penodiadau canlynol.

Penodiadau Cyrff Llywodraethu

Corff Llywodraethu	Nifer y Swyddi Gwag / Ailbenodiadau	Enwebiadau a Gafwyd
Ysgol Gynradd Maerun	1	Richard White
Ysgol Gynradd Tŷ Du	1	Yvonne Forsey
Ysgol John Frost	1	Debbie Jenkins
Ysgol Maes Ebwy	1	Stephen Marshall
Ysgol Gynradd Maendy	1	Farzina Hussain
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon	1	Graham Berry
Ysgol Basaleg	1	Laura Lacey
Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli	3	Shereen Williams Jonathan Gibbons Eirian Jones
Ysgol Feithrin Casnewydd	2	Carmel Townsend Asum Mahmoud
Partneriaeth Ysgol Gynradd y Gaer a Maes-glas	4	Stephen Marshall Beverley Perkins Anne Drewett John Reynolds
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas	1	Robert Green
Canolfan Gyflawni'r Bont	1	David Mayer

Rôl Cyfarwyddwr Strategol y Cyngor
Paul Jones, Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Rôl Pennaeth Gwasanaeth
Mary Ryan, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Penodiadau Mewnol
Panel Maethu: Cynghorydd Davies i gymryd lle'r Cynghorydd Berry

Eiriolwyr
Eiriolwr BAME: Cynghorydd Hussain i gymryd lle'r Cynghorydd Rahman
Eiriolwr Gofalwyr: Cynghorydd Guy i gymryd lle'r Cynghorydd Berry

Cyrff Allanol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cynghorydd Lacey i gymryd lle'r Cynghorydd J Watkins
Bwrdd Draenio Cil-y-coed: Cynghorydd Lacey i gymryd lle'r Cynghorydd Berry
Casnewydd Fyw: Cynghorydd Hughes i gymryd lle'r Cynghorydd Rahman

4. **Materion yr Heddlu**

Roedd y Prif Uwcharolygydd Tom Harding a'r Uwcharolygydd Mike Richards yn bresennol ac fe gafwyd y newyddion diweddaraf ganddynt am flaenoriaethau plismona lleol cyfredol, cyn gofyn am gwestiynau gan yr Aelodau.

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd ddweud ambell air.

Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o glywed am y bartneriaeth ariannu strydoedd mwy diogel a roddwyd ar waith yn ddiweddar a llongyfarchodd yr Arolygydd Cantwell a'r Arolygydd George am ennill gwobr PCC am waith partneriaeth.

Aeth yr Arweinydd yn ei blaen i ddweud bod cynnydd yn nifer y deunyddiau tramgwyddus sy'n cael eu gosod o amgylch canol y ddinas, ynghyd â gosod posteri'n anghyfreithlon, yng nghyswllt pobl trawsryweddol, ac roedd hi'n gofyn am sicrwydd y byddai'r heddlu'n ymdrin â'r mater. Sicrhaodd y Prif Uwcharolygydd Harding yr Arweinydd fod pob un o'r troseddau casineb yr adroddir amdanynt wrth yr heddlu yn cael eu harchwilio bob bore a'u trosglwyddo i swyddog hyfforddedig a fyddai'n ymdrin â'r digwyddiad mewn modd priodol, ac anogodd trigolion i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn fater difrifol. Soniodd yr Uwcharolygydd Richards hefyd fod gan yr heddlu aelod trawsryweddol o staff i ymdrin ag unrhyw broblemau mewn modd priodol.

Yn y cyfarfod blaenorol, roedd yr Arweinydd wedi codi'r heriau yr adroddwyd amdanynt ym Malpas, ac roedd yn falch o weld bod yr heddlu wedi cynyddu eu presenoldeb o amgylch Hosbis Dewi Sant. Roedd yr Arweinydd hefyd yn falch iawn o glywed bod moped wedi'i atafaelu a bod y pryderon a godwyd gan drigolion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn cael sylw.

Gofynnodd yr Arweinydd pa sicrwydd y gallai'r heddlu ei roi i drigolion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, a sut i roi gwybod am achosion o hynny, gan fod trigolion yn aml yn amharod i gysylltu â'r heddlu. Sicrhaodd yr Uwcharolygydd Richards yr Arweinydd y byddai'r heddlu mor ymatebol â phosibl i'r materion hyn er mwyn sicrhau bod cymunedau'n rhoi gwybod amdanynt.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ynghylch y berthynas sydd gan gynghorwyr â'r Arolygydd, ac a oedd gan aelodau etholedig hawl i gael cyfarfodydd misol â'r Arolygydd. Sicrhaodd yr Uwcharolygydd Richards yr Arweinydd y gellid disgwyl perthynas waith dda â'r cynghorwyr. Yn ogystal â hynny, byddai Arolygydd newydd ar gyfer Gorllewin Casnewydd yn ei swydd erbyn diwedd yr wythnos, gan fod bwlch wedi bod am gwpl o wythnosau, ac ymddiheurodd yr Uwcharolygydd Richards am hyn. Byddai'r Uwcharolygydd Richards yn pwysleisio pwysigrwydd cyfarfod yn rheolaidd â chynghorwyr.

Cododd yr Arweinydd hefyd ddiogelwch personol yr aelodau yng ngoleuni bygythiadau terfysgol diweddar a llofruddiaeth Syr David Amess. Roedd yr Arweinydd wedi cael cefnogaeth gan heddlu Gwent yn gysylltiedig â phroblem aflonyddu ddiweddar ond yn siomedig ynghylch y gwahaniaeth yn lefel y cyswllt rhwng heddluoedd ledled Cymru ac Arweinwyr Cyngor. Mewn rhai awdurdodau byddai'r heddlu'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Arweinwyr, ond nid oedd hyn wedi digwydd yng Ngwent, a byddai'r Arweinydd wedi gwerthfawrogi rhywfaint o sicrwydd gan yr heddlu. Ymddiheurodd y Prif Uwcharolygydd Harding am y ffaith nad oedd yr Arweinydd yn teimlo bod ei diogelwch yn cael ei ystyried o ddifri. Roedd y Prif Uwcharolygydd wedi anfon e-bost at y Prif Weithredwr cyn pen tair awr wedi'r digwyddiad, a sicrhaodd yr Arweinydd y byddai'r heddlu'n rhoi cefnogaeth i unrhyw Gynghorwyr a fyddai mewn sefyllfa debyg, ac roedd yn barod i rannu copi o'r e-bost â'r Arweinydd. Pe bai cynghorwyr am gael gwybodaeth gyswllt, byddai'r Prif Uwcharolygydd yn darparu'r wybodaeth honno.

<u>Cwestiynau i Gynghorwyr:</u>

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at ddigwyddiad diweddar lle roedd dioddefwr camdriniaeth ddomestig wedi ffonio 999 am hanner nos a heb gael ei gweld nes iddi oleuo am 5am. Teimlai nad oedd hyn yn dderbyniol ac y dylai'r heddlu fod wedi cyrraedd ynghynt. Roedd y stâd wedi gweld llofruddiaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddiweddar. Yn ogystal â hyn, roedd eiddo'n cael ei dargedu gan unigolyn a fyddai'n cerdded heibio gan ollwng peg arno i'w nodi ar gyfer lladron. Ymddiheurodd yr Uwcharolygydd Richards am y digwyddiad 999 diweddar, a sicrhaodd y cynghorydd y byddai'n codi'r mater gyda'r ystafell reoli. Diolchodd yr Uwcharolygydd Richards hefyd i'r cynghorydd am yr wybodaeth ynghylch bwrgleriaeth, a byddai'n codi hynny â'r Arolygydd Cawley fel mater o flaenoriaeth.

- Cadarnhaodd y Cynghorydd Jeavons fod yr Arolygydd Cawley yn cyfarfod yn fisol â chynghorwyr ward, a bod yr Arolygydd yn ddiweddar wedi rhoi diweddariad iddo ynghylch gwefryrwyr ar Ffordd Ddosbarthu'r De ar nosau Sul. Fodd bynnag, gofynnodd y Cynghorydd am gael uwchgyfeirio'r mater gan ei fod yn dal i ddigwydd ac yn achosi aflonyddwch difrifol i'r trigolion. Byddai hyn yn digwydd yn oriau mân y bore pan fyddai gyrwyr o amgylch Sefydliad Lysaght yn stopio ac yn cychwyn wrth y goleuadau traffig. Gofynnodd y Cynghorydd Jeavons hefyd am gael defnyddio'r fan 'Gan Bwyll' yn ystod yr amseroedd hyn. Cytunodd yr Uwcharolygydd i ymchwilio i'r cais am fan Gan Bwyll i fynd i'r afael â hyn.

Cadarnhaodd y Maer fod y 30 munud a neilltuwyd ar ben ac nad oedd unrhyw amser i ofyn unrhyw gwestiynau pellach.

Cododd y Cynghorydd Fouweather bwynt o drefn a gofyn i'r Maer a oedd yn deg nad oedd gan gynghorwyr amser i fynd i drafod eu materion wedi i'r Arweinydd ofyn cwestiynau i'r Prif Uwcharolygydd.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y 30 munud ar ben ar gyfer Cwestiynau i'r Heddlu, ac os oedd yr aelodau'n pryderu nad oedd digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer yr eitem hon, fod hynny'n fater i'w drafod rywbryd eto.

Cododd y Cynghorydd Routley bwynt o drefn a gofyn i'r Maer atal y Rheolau Sefydlog er mwyn parhau â Chwestiynau'r Heddlu.

Dywedodd nad oedd gan y Maer rym i atal Rheolau Sefydlog er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cwestiynau, ac mai mater i'w benderfynu gan y Cyngor oedd hynny. Fodd bynnag, gallai'r Aelodau wneud cynnig gweithdrefnol a chynnal pleidlais ynghylch a ddylid atal y Rheolau Sefydlog ac ymestyn yr amser ar gyfer Cwestiynau'r Heddlu. Bu'n arferiad erioed i'r Arweinydd gael gwahoddiad i siarad a gofyn cwestiynau yn gyntaf.

Dywedodd y Cynghorydd M Evans mai penderfyniad diweddar oedd yr arferiad hwn i'r Arweinydd siarad yn gyntaf. Nid felly yr oedd pethau pan oedd y Cynghorydd Evans yn Arweinydd hyd 2012.

Eglurodd y Swyddog Monitro y broses eto. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai angen i'r Cyngor wneud cynnig i atal y rheolau sefydlog ac ymestyn yr amser ar gyfer Cwestiynau'r Heddlu. Byddai wedyn yn destun trafodaeth a phleidlais.

Ar sail yr uchod, gofynnodd y Maer a fyddai rhywun yn dymuno cynnig pleidlais i atal y Rheolau Sefydlog ac ymestyn yr amser. Gwnaed y cynnig gan y Cynghorydd Mogford, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Routley.

Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine am bwynt arall o drefn, gan ddweud ei bod hi'n afresymol gofyn i swyddogion yr heddlu aros i drafod mater a oedd yn fewnol i'r Cyngor. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu maes o law y byddai angen neilltuo rhagor o amser ar gyfer cwestiynau'r heddlu, y swyddogion fyddai i benderfynu ynghylch hynny. Teimlai'r Cynghorydd ei bod yn afresymol i'r swyddogion heddlu aros tra bo'r drafodaeth yn cael ei chynnal, a'i bod yn bosib bod ganddynt flaenoriaethau eraill i'w hystyried.

Er ei bod yn anffodus nad oedd cynghorwyr eraill wedi cael cyfle i siarad, ac y gellid codi hyn eto, awgrymodd y Cynghorydd Whitehead fod y drafodaeth yn tynnu oddi ar gyfarfod y cyngor ac yn gwastraffu amser y swyddogion heddlu.

Gan fod amser yn mynd rhagddo, awgrymodd y Cynghorydd Fouweather y dylai'r heddlu adael, ond mynegodd ei farn, fel o'r blaen, y dylid caniatáu i gynghorwyr ofyn cwestiynau i'r heddlu, yn hytrach na rhoi'r flaenoriaeth i'r Arweinydd.

Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Maer gau'r drafodaeth, a naill ai cynnal pleidlais ar y mater neu gau cwestiynau'r heddlu.

Ar y pwynt hwnnw, tynnodd y Cynghorydd Routley ei gynnig yn ôl, a chytunwyd y dylid cau cwestiynau'r heddlu ac y dylai'r heddlu adael y cyfarfod.

5. **Hysbysiad o Gynnig: Cynnig i Gyngor Dinas Casnewydd ddatgan Argyfwng Hinsawdd**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Cynnig a ganlyn i'r Cyngor a chadw ei hawl i siarad yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

Datgan Argyfwng Ecolegol a Hinsawdd.

- **Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau â'r gwaith da yr ydym wedi'i ddechrau ac yn lleihau ein hallyriadau carbon i garbon sero net erbyn 2030.**
- **Adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i sicrhau eu bod yn cefnogi taith y ddinas tuag at garbon sero net, ac wrth ymaddasu i effeithiau'r newid hinsawdd erbyn 2050.**
- **Datblygu cynllun sefydliadol clir ar gyfer y Newid Hinsawdd, mewn ymgynghoriad â'n dinasyddion, ar gyfer y pum mlynedd nesaf a fydd yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni hynny.**
- **Datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer y ddinas gyfan, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu datrysiadau arloesol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol a gwireddu cynlluniau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol.**
- **Gweithio gyda phartneriaid Casnewydd yn Un a'r cyhoedd i ddatblygu Strategaeth Hinsawdd ar gyfer y ddinas gyfan er mwyn galluogi sero net ac ymaddasu i'r newid hinsawdd drwy'r ddinas gyfan erbyn 2050, ac ymgorffori arfer gorau ecolegol ym mhob rhan o weithgarwch y Cyngor, gan ein galluogi i arwain drwy esiampl.**
- **Rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad hwn o argyfwng ecolegol a hinsawdd ymhlith trigolion a busnesau yng Nghasnewydd, a chefnogi a dylanwadu ar gamau gweithredu gan bartneriaid drwy bartneriaethau a chefnogaeth a galluogi dinasyddion i weithredu er mwyn gostwng eu hallyriadau carbon eu hunain.**

Cadwodd yr Arweinydd ei hawl i siarad ar ôl i'r drafodaeth ddod i ben.
Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hughes, a wnaeth hefyd gadw ei hawl i siarad.

Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau.

<u>Sylwadau ar y Cynnig gan y Cynghorwyr:</u>

- Dywedodd y Cynghorydd Jeavons fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd mawr dros y pedair blynedd diwethaf gan sicrhau gostyngiad o bron 30% mewn allyriadau carbon. Roedd hyn yn cynnwys gosod bylbiau LED ynni isel yn lle bylbiau traddodiadol yn yr holl oleuadau stryd, a chyflwyno amryw o systemau solar PV ar draws ei ystâd. Yn fuan, byddai'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar ei strategaeth newid hinsawdd uchelgeisiol. Gydag ymrwymiad i sero net erbyn 2030 neu'n gynt.

  Aeth y Cynghorydd Jeavons ymlaen i ddweud bod gan y Cyngor fflyd o ychydig dros 200 o gerbydau, a'i fod yn symud i ffwrdd yn gyflym oddi wrth gerbydau diesel a phetrol. Erbyn diwedd y flwyddyn byddai 25% o'r fflyd yn drydan, gan gynnwys pob car a fan fach.

  Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio ar beiriannau a cherbydau pwrpasol mwy heriol, ac yn ddiweddar rhoddodd yr RCV cyntaf ar waith yng Nghymru, a byddai pum cerbyd arall yn ymuno â'r fflyd dros y misoedd nesaf. Erbyn 2030, byddai holl fflyd y Cyngor yn rhedeg ar drydan.

Byddai newid ceir a faniau yn arbed 75 tunnell o CO2 y flwyddyn. Roedd hyn yn cyfateb i'r swm y byddai 100 o goed yn ei amsugno dros 75 mlynedd. Mae pob RCV trydan yn arbed 40 o dunelli o Co2 y flwyddyn, a byddai'r Cyngor yn targedu'r defnydd o gerbydau trydan at Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer.

Roedd 21 o orsafoedd gwefru yn adeiladau'r cyngor, 50 wedi'u gosod yn ein meysydd parcio i'w defnyddio gan y cyhoedd, ac roedd cynlluniau ar droed i osod gwefrwyr cyflym a chyfleusterau gwefru preswyl.

- Dywedodd y Cynghorydd Lacey wrth ei gyd-aelodau ein bod mewn argyfwng Ecolegol a Hinsawdd, ac nad oedd hi'n rhy hwyr i aelodau etholedig sefydlu polisi i gael effaith gadarnhaol ar y ddinas er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

  Dim ond un cyngor, ac un ddinas, oedd Casnewydd. Er hynny, ond ychydig o flynyddoedd yn ôl gwnaed cynnig i'r cyngor droi Casnewydd yn ddinas sy'n gyfeillgar â gwenyn, ac roedd y cynnig hwnnw eisoes wedi cael cryn effaith. Roedd nid un, ond dwy wenynen brin ac mewn perygl yn ffynnu yn y ddinas - gellid cael hyd i'r gardwenynen feinlais nid yn unig ar wastadeddau Gwent, ond hefyd yn Sain Silian, ynghyd â'r wenynen grwydrol ymyl arian. Yn ogystal â hynny, sylwodd gwenynwyr lleol ar gynnydd yn y mêl a gynhyrchwyd eleni yn sgil menter Mai Di Dor, yn ogystal â chreu'r dolydd blodau gwyllt.

  Aeth y Cynghorydd Lacey yn ei flaen i ofyn i'r aelodau gefnogi'r cynnig o'u blaen er mwyn sicrhau'r effaith honno unwaith eto am genedlaethau i ddod.

- Roedd y Cynghorydd Forsey yn croesawu'r cynllun newid hinsawdd i'r cyngor gyrraedd sero net. Roedd y Cynghorydd Forsey yn annog cerdded a beicio, ac yn awgrymu cynllunio teithiau lle bynnag y bo modd. Roedd y mwyafrif o deithiau'n llai na milltir o hyd, a byddai cerdded yn ddewis iachach gan fod y Cyngor yn cynllunio mwy o lwybrau teithio llesol.

- Fel yr Aelod Cabinet blaenorol dros ddatblygu cynaliadwy, soniodd y Cynghorydd Davies fod hyn yn dal i fod yn fater yr oedd yn dal i deimlo'n angerddol iawn yn ei gylch, ac roedd hi'n teimlo rheidrwydd moesol i symud yn gyflym a diogelu dyfodol ein planed.

  Roedd y newid hinsawdd bellach yn effeithio ar bob gwlad ar bob cyfandir, ac yn effeithio ar fywydau, gan gostio'n ddrud i bobl, cymunedau a gwledydd yn y presennol, a byddai'n costio mwy fyth yn y dyfodol.

  Roedd pobl yn profi effeithiau sylweddol y newid hinsawdd, a oedd yn cynnwys newid ym mhatrymau'r tywydd, cynnydd yn lefelau'r môr a digwyddiadau tywydd mwy eithafol. Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau dynol yn gyrru'r newid hinsawdd , ac roedd y lefelau hynny'n parhau i godi i'w lefelau uchaf erioed. Heb weithredu, rhagfynegwyd y byddai tymheredd cyfartalog arwynebedd y byd yn codi dros y 21ain ganrif, a byddai'n debygol o fynd heibio 3 gradd selsiws.

  Mae'n glir mai'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed y mae hyn yn effeithio arnynt fwyaf. Mae hyn yn wir ar raddfa ryngwladol, mewn gwledydd fel Madagasgar, lle cafodd sychder ei achosi'n llwyr gan y newid hinsawdd gan arwain at newyn a chlefyd.

  Ar raddfa fwy lleol, roedd hi'n glir bod hyn yn effeithio'n fwy uniongyrchol ar y rhai mwyaf difreintiedig, a oedd naill ai'n byw mewn ardaloedd lle roedd lefelau uchel o allyriadau co2 wedi'u cofnodi, neu'n byw mewn tai annigonol nad oeddent yn addas i wrthsefyll yr hinsawdd eithafol a oedd yn cael ei rhagweld. Teimlwyd bod gan bawb gyfrifoldeb personol i weithredu.

Roedd cymryd cyfrifoldeb corfforaethol a datblygu strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan a fyddai'n ein galluogi ni fel dinas i droi'n garbon niwtral erbyn 2050 yn rhywbeth yr oedd yn rhaid ei ganmol, felly cefnogodd y Cynghorydd Davies y cynnig.

- Awgrymodd y Cynghorydd Whitehead fod y drafodaeth ynghylch llygredd wedi cael ei rhoi i'r naill ochr, ond bod angen codi hyn fel mater o flaenoriaeth. Soniodd y Cynghorydd fod swm aruthrol o chwyn yn cuddio plastigau ar safle Sainsbury's at y Castell. Roedd llawer o blastig wrth y fynedfa i Ganol y Ddinas hefyd, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn.

- Soniodd y Cynghorydd M Evans y byddai'r grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r cynnig, ac roedd yn croesawu'r cyfle i gydweithio â'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi iddynt ddarparu datrysiadau arloesol a chymorth er mwyn helpu'r cyngor i gyrraedd ei nod a'i darged. Fodd bynnag, roedd angen i'r cyhoedd gefnogi hyn. Byddai rhwydwaith trafnidiaeth cwbl integredig a fyddai'n rhedeg bob awr o'r dydd a phob dydd o'r flwyddyn am bris rhesymol, ynghyd â gwasanaeth bws dibynadwy am bris rhesymol o gymorth mawr, ond roeddem ymhell o allu cyflawni hyn. Roedd angen cydnabod bod car yn rheidrwydd i rai pobl, yn hytrach na moethusrwydd. Er mwyn galluogi teuluoedd incwm isel i gymryd rhan drwy ddewis opsiynau fforddiadwy, byddai angen swm sylweddol o gyllid gan y llywodraeth. Ni fyddai hyn yn hawdd, a byddai angen i bob un ohonom osod esiampl, a byddai angen i weddill y byd chwarae ei ran hefyd.

- I gloi, dywedodd y Cynghorydd Hughes y byddai'r rhan fwyaf ohonom yma heno yn ymwybodol iawn o'r niwed aruthrol y mae cynnydd cyfartalog o 2~C yn nhymheredd y byd yn debygol o'i achosi i'n planed, hyd yn oed o gymharu â chynnydd o 1.5*C.

  Rydym yn wlad arfordirol, ac mae Casnewydd yn ddinas forol - rhywbeth fu o'n plaid yn y gorffennol ond sy'n codi heriau difrifol o ran ein dyfodol. Ni fydd yr un gornel o'r byd yn osgoi canlyniadau'r newid hinsawdd.

  Bellach bydd angen cymryd camau uchelgeisiol ar raddfa leol a chenedlaethol, ac fel unigolion er mwyn cyfyngu ar gynhesu byd-eang.
  Mae Casnewydd wedi ymrwymo i dargedau sero net ac yn arwain y ffordd mewn sawl maes. Mae ein staff dawnus ac angerddol yn ein gwneud yn sefydliad y gallwn ymfalchïo ynddo. Rydym wedi gwneud dechrau da, a chynnydd cryf, ond fel y trafodwyd drwy gydol COP26 mae angen gweithredu llawer mwy o gamau brys i osgoi effeithiau gwaethaf y newid hinsawdd.

  Bydd datgan argyfwng ecolegol a hinsawdd yn cryfhau ein safbwynt ymhellach wrth barhau i gymryd camau effeithiol. Fel cyngor byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'r holl gamau a amlygir, a bod ein cynlluniau'n gyson ac effeithiol wrth gyrraedd ein targedau uchelgeisiol.

  Mae ein cydweithwyr yn y Cyngor wedi siarad am y gwahaniaeth rydym yn ei wneud, ac effaith gadarnhaol y cynigion rydym yn eu cymeradwyo ar yr amgylchedd. Ledled y ddinas mae pobl yn gwneud gwahaniaeth ac mae'r Cyngor hwn yn gwneud gwahaniaeth - rhaid inni sicrhau nad ydym yn colli momentwm.

  Anogodd y Cynghorydd Hughes yr aelodau i rannu ac ymateb i ddrafft y strategaeth newid hinsawdd, ac i helpu i lunio ymateb ein dinasoedd i'r heriau hyn.

  Mae cynifer o weithgareddau'n cael eu cynnal ledled y ddinas y gallwn fod yn wirioneddol falch ohonynt - rydym yn gweld ein bioamrywiaeth drefol yn ffynni, rhywogaethau newydd yn dychwelyd a phartneriaethau a chymunedau'n ymgysylltu, ond mae'r her o flaen dynoliaeth yn cynrychioli'r her fwyaf erioed, ac mae'r cynnig yn ein rhwymo ni i gyd i wneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i'r heriau, cefnogi ein hecosystemau a chyrraedd sero net.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod y cynnig hwn yn anfon neges glir ein bod yn cymryd y materion hyn o ddifri ac y byddwn yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i gyflawni ein rhwymedigaethau i genedlaethau'r dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Hughes yn falch o eilio'r cynnig hwn a gofynnodd i'w gydweithwyr yn y Cyngor gefnogi'r cynnig hefyd.

- Soniodd yr Arweinydd ei bod yn amlwg bod cytundeb trawsbleidiol o blaid y cynnig hwn, a phwysleisiodd rôl gwaith partneriaeth. Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i siarter teithio cynaliadwy. Roedd cyfle i yrwyr tacsi ddefnyddio'r cynllun Cerbydau Trydanol (EV) sydd ar gael iddynt brofi moduron cerbydau trydan. Roedd trafodaeth yn cael ei chynnal ar sut i harneisio'r adnodd naturiol ar hyd coridor yr M4 o Afon Hafren. Roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â rhai o'r materion y rhoddwyd sylw iddynt gan gydweithwyr yn y cyfarfod hwn, fel chwynnu a chodi sbwriel. Cyfeiriodd yr Arweinydd sylwadau cydweithwyr o'r wrthblaid a diolch i bawb am eu cefnogaeth yn y drafodaeth hon. Teimlwyd bod rhwymedigaeth foesol i gefnogi'r plant yng Nghasnewydd fel eu bod yn cael dyfodol mwy cynaliadwy.

Penderfynwyd:
Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig ac fe'i derbyniwyd yn briodol.

6. **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Canol y Ddinas (PSPO)**

Gofynnodd y Maer i'r Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio wrth yr aelodau fod yr adroddiad yn argymell y dylai'r Cyngor benderfynu cymeradwyo a mabwysiadu Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) diwygiedig ar gyfer Canol y Ddinas am gyfnod pellach o dair blynedd, fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

Pwrpas Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) oedd atal unigolion a grwpiau rhag cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus mewn man cyhoeddus, lle roedd yr ymddygiad hwnnw'n amharu, neu'n debygol o amharu, ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol. Dim ond y Cyngor a allai wneud PSPO ond gallai'r Heddlu a Swyddogion y Cyngor gyflawni gwaith gorfodi. Gallai unrhyw un a fyddai'n torri'r PSPO dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig neu fod yn agored i ddirwy yn y llys ynadon.

Lluniwyd y PSPO Canol Dinas cyntaf yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd 2015, yn dilyn ymgynghori helaeth â'r cyhoedd a goruchwyliaeth gan y swyddogaeth Graffu. Cafodd y PSPO gwreiddiol wedyn ei ddisodli gan Orchymyn diwygiedig yn 2018. Roedd yn rhaid adolygu'r PSPO bob tair blynedd i ystyried a oedd angen parhau â'r mesurau rheoli.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth â'r canllawiau statudol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach. Roedd canlyniadau'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymatebion y cyhoedd i'r ymgynghoriad ehangach wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad.

Heddlu Gwent oedd yn gorfodi cyfyngiadau'r PSPO cyfredol yn bennaf, ac roedd cydweithwyr o'r Heddlu wedi bod yn ymwneud â´r broses adolygu ac yn bresennol yn nau gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Craffu. Roeddent o blaid parhau â chyfyngiadau'r PSPO ac yn hyderus y byddai'r mesurau rheoli hyn o gymorth iddynt reoli canol y ddinas yn fwy effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu sylwadau'r Heddlu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roeddent yn fodlon bod yr angen am PSPO yn parhau yng nghanol y ddinas. Roeddent yn argymell y dylid ei adnewyddu ar yr un telerau ag o'r blaen, ond gan gynnwys un mesur rheoli ychwanegol yn gysylltiedig â defnydd peryglus o e-feiciau a e-

sgwteri. Fodd bynnag, y Cyngor llawn oedd i benderfynu'n derfynol ynghylch mabwysiadu unrhyw PSPO.

Wrth ystyried yr angen am unrhyw PSPO a'i effaith, roedd yn rhaid i'r Cyngor roi sylw i'w ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a'i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac felly roedd Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb wedi cael ei gynnal, a oedd hefyd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn. Ystyriwyd bod y mesurau rheoli a gynigiwyd yn ffordd resymol a chymesur o atal neu leihau effaith niweidiol y math hwn o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Canol y Ddinas.

Cynigiodd y Cynghorydd Truman fod y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo PSPO Canol y Ddinas fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

- Fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu fu'n adolygu'r PSPO newydd, diolchodd y Cynghorydd Lacey i'r swyddogion, asiantaethau allanol ac aelodau'r pwyllgor am yr amser a dreuliwyd yn sicrhau bod y gorchymyn a gyflwynwyd heddiw'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cynnig canlyniad angenrheidiol a chymesur ar gyfer yr hyn yr oedd ei angen yng nghanol y ddinas.

  Ar ôl casglu y dylid argymell y PSPO fel yr oedd wedi'i gyflwyno, derbyniodd y Pwyllgor Craffu gyngor gan y swyddogion, Pennaeth y Gyfraith a Safonau yn ogystal â Heddlu Gwent. Roedd yr holl bartïon yn argymell yn gryf y gorchymyn fel yr oedd wedi'i gyflwyno heddiw. Gan hynny, roedd y Cynghorydd Lacey o blaid cymeradwyo'r gorchymyn hwn.

- Cymeradwyodd y Cynghorydd M Evans yr adroddiad yn anfoddog, gan barhau i fod yn siomedig nad oedd gwaharddiad llwyr ar gardota. Er bod materion hawliau dynol yn berthnasol, roedd hi'n werth nodi bod gan drigolion yr hawl i ymweld â chanol y ddinas heb gael pobl yn gofyn iddynt am arian, gan fod rhoi arian yn aml yn wrthgynhyrchiol a bod cymdeithasau ar gael i roi cymorth i bobl ddigartref. Roedd felly angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

- Roedd y Cynghorydd H Townsend yn croesawu'r camau a gymerwyd yn gysylltiedig ag e-feiciau ac e-sgwteri yng nghanol y ddinas, ond ni chytunai â'r mesurau a gymerwyd ynghylch digartrefedd - teimlai fod pobl ddigartref yn cael eu cosbi. Nid oedd y Cynghorydd Townsend felly'n cymeradwyo'r cynnig.

- Soniodd y Cynghorydd Ferris am sgwrs a gafodd yn ddiweddar â chwpl nad oeddent yn ymweld â Chasnewydd gan fod yr achosion o gardota bygythiol yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel. Roedd ef ei hun wedi cael profiad tebyg wrth gasglu arian er budd elusen, pan ofynnwyd iddo symud ymaith. Nid oedd ychwaith yn dderbyniol i sgwteri trydan yrru'n gyflym.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at sylwadau'r Cynghorydd Lacey ynghylch y cynnig seiliedig ar wybodaeth, a'r ymarfer casglu data, a chyflwyno'r cynigion dan sylw. Nid oedd hyn yn seiliedig ar dybiaethau, ond ar dystiolaeth ffeithiol, yr oedd yn rhaid ei hystyried. Roedd amryw o ddadleuon ar y naill ochr a'r llall, ond mynegodd yr Arweinydd y glir fod gwaith i gefnogi pobl ddigartref yn parhau. Yn sgil y pandemig, trawsnewidiwyd y dull o roi cymorth i bobl sy'n agored i niwed, a'r hyn yr oedd y Cyngor yn gallu ei wneud. Roedd yr Arweinydd felly o'r farn fod yr adroddiad yn rhesymol.

Penderfynwyd:
Y dylai'r Cyngor fabwysiadu a gweithredu PSPO Canol y Ddinas (2021-2024), fel y nodwyd yn yr adroddiad.

7. **Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Strategol 2020/21**

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd gyflwyno'r adroddiad uchod i'r Cyngor.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) roedd yn ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb strategol a geir yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi data cydraddoldeb staff, a oedd yn yr adroddiad hwn hefyd. Roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn trafod y flwyddyn gyntaf o gyflawni yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Strategol newydd y Cyngor, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2020.

Datblygwyd yr Amcanion newydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol a buont yn destun ymgysylltu helaeth â'r gymuned. Er bod y Cynllun yn gwireddu gweledigaeth strategol ar gyfer cydraddoldeb yng Nghasnewydd, sicrhawyd, drwy gynnwys cymunedau ar lawr gwlad, ei fod hefyd yn cynnig canlyniadau pendant i gymunedau lleol.

Roedd y pandemig yn creu cryn heriau wrth gyflawni yn erbyn rhai meysydd gwaith, er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau cwsmeriaid. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd mewn meysydd eraill o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19. Bu'n rhaid i waith cydraddoldeb y Cyngor am eleni fod yn hyblyg, gan ymateb i heriau a ddeuai i'r amlwg, yn enwedig o ran mynediad i wybodaeth, addysg ac ymdrin â throseddau casineb ar sail hil.

Teimlwyd effeithiau ymadawiad y DU â'r UE yn ddwys yn ein cymunedau ymfudol o'r UE eleni, a pharhaodd y ffocws ar helpu pobl i aros yng Nghasnewydd a diogelu eu hawliau. Roedd y Cyngor wedi ystyried effeithiolrwydd ein trefniadau monitro drwy gydol y flwyddyn a chymryd camau i'w gwella.

Eleni parhaodd y Cyngor i ddangos ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn amryfal ffyrdd, gan gynnwys ymrwymo i Bolisi Dim Goddefgarwch i Hiliaeth yng Nghymru gan Gyngor Hil Cymru a Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr. Nodwyd dyddiadau pwysig gennym - gan gynnwys Mis Balchder, Hanes Pobl Ddu 365, Wythnos Ffoaduriaid, Diwrnod Cofio'r Holocost a Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Yn gynharach eleni, dosbarthwyd £100,000 o gyllid i brosiectau cymunedol ar lawr gwlad yn rhan o'r rhaglen Cyllidebu Cyfranogol, a sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Hygyrchedd i gynghori ar brosiectau'r cyngor, gyda ffocws ar fynediad i bobl anabl.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o rwydweithiau staff er mwyn rhoi cefnogaeth well i'n cydweithwyr sydd o gefndiroedd lleiafrifol. Roedd gan y cyngor bellach rwydwaith staff Amrywiaeth (lleiafrifoedd ethnig), LGBTQ+ ac Anabledd. Roedd dadansoddiad o ddata ein gweithlu yn amlygu meysydd allweddol i'w gwella, gan gynnwys gwella lefelau data cydraddoldeb cofnodedig, alinio categorïau cofnodi yn well â data'r cyfrifiad, a deall pam bod lefelau'r ymadawyr yn uwch ar gyfer grwpiau neilltuol (ee, pobl o gefndir lleiafrifol ethnig a phobl anabl).

Roedd gan y Cyngor waith i'w wneud o hyd i wella'r gynrychiolaeth o staff lleiafrifol ethnig ar bob lefel o fewn y sefydliad, a dyma fyddai ffocws ein gwaith yn ystod 2021/22. Roedd y Cyngor wedi sefydlu gweithgorau penodol ar gyfer Recriwtio a Gweithlu Cynrychioliadol i fwrw ymlaen â hyn.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gerbron y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet. Roedd y fersiwn yn cynnwys sampl o'r graffeg a fyddai'n cael eu defnyddio yn yr adroddiad terfynol a fyddai'n cael ei gyhoeddi, a'r deunydd cyfathrebu.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gofyn i'r Aelod Cabinet dros Asedau ac Adnoddau eilio'r cynnig.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Asedau ac Adnoddau **m**ai crynodeb oedd yr adroddiad hwn o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Roedd yn nodi ymrwymiad y Cyngor i ddiwylliant yn y gweithle a dull o ddarparu gwasanaethau sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant ac amrywiaeth.

Byddai'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf, ac roedd yr Adroddiad Blynyddol yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer y cyfnod nesaf yn seiliedig ar adolygiad o ddata ein gweithlu a chynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb hyd yma.

Cyflawnwyd gwaith eleni yn erbyn cefndir heriol, a arweiniodd at ffocws dwys ar anghydraddoldeb a chraffu ar ymateb gwasanaethau cyhoeddus i'r pandemig., yn enwedig wrth gefnogi cymunedau lleiafrifol. Un o gryfderau allweddol y cyfnod hwn fu'r cynnydd o ran ymgysylltu â Rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein cymunedau ar lawr gwlad a staff lleiafrifol. Defnyddiwyd hyn nid yn unig yn sail ar gyfer ymateb y Cyngor i COVID-19, ond hefyd i lywio'i flaenoriaethau wrth adfer ac mewn gwaith ehangach ar gydraddoldeb.

Nododd yr Aelod Cabinet hefyd fod yr adroddiad hefyd wedi'i ysgrifennu'n dda iawn gan swyddogion, ac yn gynhwysfawr iawn.

Roedd Grŵp Cydraddoldeb Strategol y Cyngor wedi cael ei ailwampio ac erbyn hyn yn derbyn adroddiadau chwarterol ar brif bwyntiau. Roedd Eiriolwyr o blith yr Aelodau Etholedig a Chadeiryddion Rhwydwaith hefyd yn bresennol yn y Grŵp, ac roedd yn canolbwyntio llawer mwy ar ganlyniadau wrth gefnogi'r gwaith hwn.

Penderfynwyd:
Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 20/21 yn unol â therfynau amser statudol.

8. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2020/21**

Gofynnodd y Maer i'r Cynghorydd Hourahine gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau 2020/21 i'r Cyngor.

Dyma oedd yr wythfed adroddiad blynyddol, a drafodai'r cyfnod o fis Tachwedd 2020 hyd fis Tachwedd 2021, ac a oedd yn dilyn ymlaen o'r adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2020.

Yn flaenorol, roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar sail wirfoddol. Fodd bynnag, ers mis Mai 2022, roedd hi bellach yn ofyniad statudol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Yn ogystal â hynny, roedd yn rhaid i Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf gynnwys asesiad o'r graddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad o fewn eu grwpiau.

Roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ar chwe achlysur dros y deuddeg mis diwethaf, gyda'r holl gyfarfodydd wedi'u cynnal o bell yn unol â Phrotocolau'r Cyngor.

Am y tro cyntaf eleni, galwyd ar y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad camymddwyn ac i orfodi sancsiwn ar aelod etholedig. Nid oedd hyn yn adlewyrchu'n dda ar y Cyngor, ac felly ystyriwyd y dylai'r achos hwn fod yn wers lesol i'r holl aelodau. Roedd copi llawn o'r penderfyniad felly wedi'i atodi i'r Adroddiad Blynyddol hwn, ac roedd yr holl aelodau'n cael eu hannog i ddarllen a nodi'r rhesymau wrth wraidd y penderfyniad.

Ni phenderfynwyd yn ffurfiol ar unrhyw gwynion o dan Gamau 1 a 2 y Protocol Datrys yn Lleol, ac ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion i sylw'r Pwyllgor Safonau o dan Gam 3 yn ystod 2020/21.

Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod tair cwyn wedi'u cyfeirio i sylw'r Ombwdsmon am Gynghorwyr y Ddinas dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod wyth cwyn wedi'u gwneud ynghylch cynghorwyr cymuned. Ar wahân i un achos o gamymddwyn, ni dderbyniwyd bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol i'r cwynion eraill, er i'r Ombwdsmon ysgrifennu at ddau gynghorydd cymuned i'w hatgoffa ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Cod, ac i'w rhybuddio i beidio bod yn ymosodol nac yn amharchus tuag at aelodau o'r cyhoedd yn y dyfodol, ac i beidio dwyn anfri ar eu swydd.

Roedd y gofynion hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Cymuned, cynghorau cymuned a'u clercod yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu'n rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor, yn enwedig wrth inni symud tuag at y cylch nesaf o etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cwblhaodd dau o'r aelodau annibynnol a oedd wedi gwasanaethu hiraf ar y Pwyllgor, Phil Westwood (Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor) a Tracey Britton, eu hail dymor swydd, a dymunai'r Pwyllgor fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled ar hyd y blynyddoedd. Roedd hi'n bleser gan y Pwyllgor gael croesawu Richard Morgan a Gill Norton fel aelodau annibynnol newydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi a chytuno ar yr adroddiad.

Penderfynwyd:
Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2020/21 a nodi'r flaenraglen waith..

9. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2020/21**

Gofynnodd y Maer i'r Cynghorydd Hourahine gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau 2020/21 i'r Cyngor.

Dyma oedd yr wythfed adroddiad blynyddol, a drafodai'r cyfnod o fis Tachwedd 2020 hyd fis Tachwedd 2021, ac a oedd yn dilyn ymlaen o'r adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2020.

Yn flaenorol, roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar sail wirfoddol. Fodd bynnag, ers mis Mai 2022, roedd hi bellach yn ofyniad statudol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Yn ogystal â hynny, roedd yn rhaid i Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf gynnwys asesiad o'r graddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad o fewn eu grwpiau.

Roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ar chwe achlysur dros y deuddeg mis diwethaf, gyda'r holl gyfarfodydd wedi'u cynnal o bell yn unol â Phrotocolau'r Cyngor.

Am y tro cyntaf eleni, galwyd ar y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad camymddwyn ac i orfodi sancsiwn ar aelod etholedig. Nid oedd hyn yn adlewyrchu'n dda ar y Cyngor, ac felly ystyriwyd y dylai'r achos hwn fod yn wers lesol i'r holl aelodau. Roedd copi llawn o'r penderfyniad felly wedi'i atodi i'r Adroddiad Blynyddol hwn, ac roedd yr holl aelodau'n cael eu hannog i ddarllen a nodi'r rhesymau wrth wraidd y penderfyniad.

Ni phenderfynwyd yn ffurfiol ar unrhyw gwynion o dan Gamau 1 a 2 y Protocol Datrys yn Lleol, ac ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion i sylw'r Pwyllgor Safonau o dan Gam 3 yn ystod 2020/21.

Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod tair cwyn wedi'u cyfeirio i sylw'r Ombwdsmon am Gynghorwyr y Ddinas dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod wyth cwyn wedi'u gwneud ynghylch cynghorwyr cymuned. Ar wahân i un achos o gamymddwyn, ni dderbyniwyd bod angen

cynnal ymchwiliad ffurfiol i'r cwynion eraill, er i'r Ombwdsmon ysgrifennu at ddau gynghorydd cymuned i'w hatgoffa ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Cod, ac i'w rhybuddio i beidio bod yn ymosodol nac yn amharchus tuag at aelodau o'r cyhoedd yn y dyfodol, ac i beidio dwyn anfri ar eu swydd.

Roedd y gofynion hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Cymuned, cynghorau cymuned a'u clercod yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu'n rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor, yn enwedig wrth inni symud tuag at y cylch nesaf o etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cwblhaodd dau o'r aelodau annibynnol a oedd wedi gwasanaethu hiraf ar y Pwyllgor, Phil Westwood (Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor) a Tracey Britton, eu hail dymor swydd, a dymunai'r Pwyllgor fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled ar hyd y blynyddoedd. Roedd hi'n bleser gan y Pwyllgor gael croesawu Richard Morgan a Gill Norton fel aelodau annibynnol newydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi a chytuno ar yr adroddiad.

Penderfynwyd:
Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2020/21 a nodi'r flaenraglen waith.

10. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyhoeddiadau'r Arweinydd:

- **Diwrnod Rhuban Gwyn 2021**
  Cynhelir Diwrnod y Rhuban Gwyn eleni ar ddydd Iau 25 Tachwedd.

  Mae'n ddigwyddiad blynyddol sy'n nodi Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Diddymu Trais yn Erbyn Menywod.

  Eleni rydym yn gofyn i drigolion, busnesau, ysgolion a grwpiau cymunedol ymrwymo i #Her30.

  Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth ynghylch y 30 o blant yng Ngwent yr effeithir arnynt bob dydd yn eu cartrefi gan achosion o gam-drin domestig, lle mae'n rhaid galw'r heddlu.

  Gallai #Her30 fod yn rhywbeth rydych chi'n ei wneud ar eich pen eich hun, gydag ambell aelod o'r teulu neu fel rhan o grŵp. Gall pobl, teuluoedd, ysgolion, sefydliadau, timau chwaraeon a grwpiau cymunedol osod eu heriau eu hunain gan ganolbwyntio ar y rhif 30 ac fe'u hanogir i bostio eu gweithredoedd i gefnogi'r ymgyrch ar-lein.

  Mae gweithdai addysgol a chynlluniau gwersi'n cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion ar draws Gwent i godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd perthnasoedd iach ymhlith plant a phobl ifanc.

  Gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf, gan gynnwys corfforol, rheolaeth drwy orfodaeth, camdriniaeth seicolegol a chamdriniaeth ariannol.

  Ar y cyd â'n partneriaid mae'n hanfodol ein bod nid yn unig yn sefyll yn erbyn ymddygiad dinistriol o'r fath ond ein bod hefyd yn annog y rhai sy'n ei brofi i geisio cymorth.

- **Cynllun newid hinsawdd**
  Mae'r newid hinsawdd ymhlith yr heriau byd-eang sy'n diffinio ein cenhedlaeth.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai pawb ohonom yn ymwybodol o ganlyniadau COP26 a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Glasgow, a'r angen dybryd i bawb ddod ynghyd i gyfyngu ar godiadau tymheredd byd-eang, ac i adeiladu byd sy'n gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.

Fel cyngor, rydym eisoes wedi gwneud dechrau da, gan sicrhau gostyngiad o 29 y cant i'n hallyriadau uniongyrchol a chynhyrchu ynni dros y tair blynedd diwethaf.

Fodd bynnag, gwyddom fod gennym lawer mwy o waith i'w wneud, ac rwy'n falch ein bod bellach wedi cyflwyno ein drafft o'r cynllun newid hinsawdd ar gyfer ymgynghoriad.

Mae'r cynllun newid hinsawdd uchelgeisiol yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at droi'n garbon niwtral erbyn 2030, a sut y byddwn yn defnyddio ein gwasanaethau i gefnogi gweithredu ynghylch y newid hinsawdd ledled y ddinas.

Mae'n canolbwyntio ar chwe thema gyflawni allweddol:

- diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol
- ein hadeiladau
- ein tir
- trafnidiaeth a symudedd
- y nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu caffael
- ein rôl ehangach

Mae'r Cyngor yn gofyn am farn trigolion, busnesau a rhanddeiliaid er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cymryd y camau cywir cyn inni gwblhau'r cynllun yn derfynol yn fuan yn 2022.

- **Gwobr amgylcheddol**
  Gan barhau ar yr un trywydd, cyhoeddodd yr arweinydd ei bod yn falch dros ben o fod wedi derbyn gwobr Sefydliad Eithriadol ar ran Cyngor Dinas Casnewydd yn nghyfres gyntaf y Gwobrau Amgylcheddol Cenedlaethol a ddyfarnwyd yn ddiweddar.

  Roedd y wobr yn cydnabod ymrwymiad ac angerdd ein staff i gyflawni newid gwirioneddol i'n sefydliad ac i Gasnewydd.

  Mynegodd yr Arweinydd ddiolch i'r rhai sy'n gweithio'n ddi-flino ac yn angerddol i wella'n hamgylchedd a lleihau ein hallyriadau carbon, ac i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser rhydd i gefnogi mentrau dirifedi fel gwirfoddolwyr yn y ddinas a thu hwnt. Adlewyrchiad o'u hymdrechion a'u hymroddiad hwy oedd y fuddugoliaeth hon.

- **Gwobr maethu genedlaethol i weithiwr cymdeithasol**
  Llongyfarchodd yr Arweinydd un o weithwyr cymdeithasol y Cyngor sydd wedi cael ei chydnabod am ei gwaith rhagorol ym maes maethu.

  Mae Lorraine Bird, gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol gyda thîm Maethu Cymru Casnewydd, wedi ennill gwobr ragoriaeth gan y Rhwydwaith Maethu am gyfraniad eithriadol gan weithiwr cymdeithasol.

  Roedd ei henwebiad yn seiliedig ar lythyr o werthfawrogiad gan un o'r gofalwyr maeth y mae hi'n gweithio gyda nhw, yn tynnu sylw at y ffaith ei bod bob tro'n cyflawni uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswydd.

  Mynegodd yr Arweinydd longyfarchiadau i Lorraine a'r tîm maethu cyfan sy'n gwneud gwaith anhygoel i bobl ifanc yng Nghasnewydd.

- **Cronfa Codi'r Gwastad / Adnewyddu Cymunedol**

Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod Casnewydd wedi derbyn dros £2.8miliwn o Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU (UK CRF).

Gwahoddwyd ceisiadau i CRF y DU yn gynharach yn y flwyddyn, a'r nod oedd cefnogi pobl i gael cyflogaeth a buddsoddi mewn sgiliau, busnes lleol, lleoedd a chymunedau.

Fel cyngor, roeddem yn falch o allu cefnogi partneriaid gyda'u ceisiadau, a gallwn nawr fwrw ymlaen ag amryw o brosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein hardaloedd lleol.

Byddwn yn parhau i wneud cais am arian gan fentrau o'r fath i sicrhau cymaint o fudd ag sy'n bosibl i Gasnewydd.

- **Canolfan Hamdden**
  Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn gynharach y mis hwn gan fraenaru'r tir er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor am ganolfan hamdden newydd i drigolion Casnewydd.

  Bydd gwaith nawr yn dechrau'n fuan y flwyddyn nesaf i greu adeilad yr 21ain ganrif a fydd yn cynnwys cyfleusterau o'r radd flaenaf.

  Yn ogystal â darpariaeth wych o ran hamdden, rydym yn benderfynol o sicrhau bod y ganolfan newydd yn cael ei hadeiladu hyd at y safonau amgylcheddol gorau posib.

  Rydym am iddi fod yn gynhwysol a chael ei defnyddio gan bobl o bob oed ac o bob rhan o'r ddinas, felly mae hygyrchedd hefyd yn ffactor allweddol yn ei dyluniad a'i lleoliad.

  Gofynnwyd i'r cyhoedd am eu safbwyntiau ynghylch y datblygiad yn gynharach eleni, ac roedd yr adborth a gafwyd yn hynod gadarnhaol. Roedd yr Arweinydd yn sicr y byddai ganddynt hwy, fel hi ei hun, ddiddordeb mawr yng nghynnydd y datblygiad, gan ddisgwyl yn eiddgar i'r drysau agor.

<u>Cwestiynau'r Arweinydd</u>

Cynghorydd M Evans:
Ym mis Chwefror 2021, gofynnodd y Cynghorydd Fouweather a oedd yr Arweinydd neu Aelodau'r Cabinet yn cynnal trafodaethau â Friars Walk ynghylch siop Debenhams a fyddai'n wag yn fuan. Ateb yr arweinydd oedd 'na'. Dyfynnwyd yr Arweinydd wedyn mewn erthygl Newyddion y BBC yn awgrymu y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda LIC ac Ardal Gwella Busnes Casnewydd Nawr i ganfod datrysiad. Wyth mis yn ddiweddarach, datgelodd cais Rhyddid Gwybodaeth nad oedd unrhyw gyfarfod wedi cael ei gynnal â Friars Walk, Talisker Corporation. Yn ogystal â hynny, a oedd yr Arweinydd hefyd wedi cael gwybod ymlaen llaw fod Admiral yn cau yng Nghanol y Ddinas.

<u>Ymateb:</u>
Dywedodd yr Arweinydd nad oedd ganddi reolaeth ar adroddiadau newyddiadurwyr. Roedd nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal a bu'r Arweinydd yn cyfarfod â Chadeirydd Debenhams Group. Roedd trafodaethau parhaus hefyd wedi cael eu cynnal rhwng uwch swyddogion a Talisker. Roedd y rhain yn drafodaethau technegol ynghylch materion cyfreithiol ac ariannol masnachol sensitif, ac felly'n faterion i uwch swyddogion yn hytrach na'r Arweinydd.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud ei bod yn siomedig iawn ynghylch y newyddion bod Admiral yn cau ei swyddfeydd, ac na chafodd wybod am hynny tan y diwrnod pan ryddhawyd y datganiad i'r wasg. Cysylltodd Admiral â'r Cyngor am 9am y diwrnod hwnnw i ddweud bod datganiad yn cael ei ryddhau i'r wasg. Roedd swyddogion yn parhau i gynnal deialog ag Admiral, ac roeddent yn dal i fod yn denantiaid ac yn gyfrifol am dalu rhent ar yr adeilad. Byddai swyddogion hefyd yn parhau i weithio'n agos ag Admiral i nodi tenant newydd i

gymryd drosodd adeilad Admiral. Roedd cyfarfodydd wedi cael eu cynnal bob pythefnos i drafod y canlyniadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Atodol:
Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at yr wybodaeth fod swyddogion yn ymdrin â'r materion hyn, a'r ymdeimlad bod hon yn thema ailadroddus a oedd yn arddangos diffyg meddwl cydgysylltiedig. Soniodd y Cynghorydd Evans fod y cyn Ddirprwy Arweinydd y Cynghorydd Ed Townsend wedi gweithio'n ddiflino i gael Admiral yn y ddinas. Eleni yn unig roedd y Cyngor wedi talu £375K i Talisker, hyd fis Medi mewn cymorthdaliadau'n gysylltiedig ag unedau siop gwag, a £2m ers mis Ionawr 2017. A oedd yr Arweinydd yn teimlo bod angen sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ar fyrder â Debenhams fel mater o flaenoriaeth, ac mai cyfrifoldeb Arweinydd y Cyngor oedd bwrw ymlaen â'r trafodaethau hyn.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod trefniadau ariannol Talisker wedi'u cofnodi'n gyhoeddus drwy gyfarfodydd agored a thryloyw'r Cabinet, a bod cyhoeddusrwydd eang i'r cytundeb cymhorthdal buddsoddi, a chofnod helaeth o hynny. Mewn perthynas ag Admiral, cafodd Cyngor Dinas Casnewydd wybod y newyddion yn yr union un ffordd ag y cafodd ei gymdogion wybod am leoliadau swyddfeydd eraill, ac nid oedd yn gwybod ymlaen llaw am y camau yr oedd y cwmni'n eu cymryd. Fodd bynnag, roedd a wnelo hyn ag adleoli staff yn unig, yn hytrach na cholli swyddi. Roedd y cyngor yn gweithio'n agos gyda busnesau ar ystod o lefelau ar draws yr awdurdod. Roedd y Cyngor yn cyfathrebu'n gyson â'r Ardal Gwella Busnes i annog busnesau newydd i ddod i Gasnewydd, ac roedd y Cyngor hefyd yn cefnogi egin-fusnesau.

Bryd hynny, ailadroddodd y Cynghorydd M Evans ei gwestiwn, ac fe'i hatgoffwyd gan yr Arweinydd fod swyddogion yn ymdrin â'r materion dan sylw.

Codwyd pwynt o drefn gan y Cynghorydd M Spencer ynghylch ailadrodd cwestiwn. Dywedodd y Maer nad oedd diben mynd ar drywydd y cwestiwn hwn, a gofynnodd am y cwestiwn nesaf i'r Arweinydd

Cynghorydd K Whitehead:
Ynghylch faint o drigolion Casnewydd a oedd yn ymweld â Chaerdydd a Gŵyl y Gaeaf, a'r ystyriaeth y gallai Casnewydd efelychu hyn. Byddai'r tir gyferbyn â Friars Walk yn lleoliad delfrydol ar gyfer hynny. A allai Cyngor Dinas Casnewydd hefyd sefydlu hyn dros gyfnod yr Ŵyl.

Ymateb:
Roedd yr Arweinydd yn croesawu'r cwestiwn, ac ystyriai hyn yn gyfle perffaith i ddenu pobl i Ganol y Ddinas. Soniodd yr Arweinydd hefyd am ddigwyddiad goleuo goleuadau'r Nadolig a stondinau a reidiau ffair y gellid eu lleoli o fewn yr ardal ger Glan yr Afon a Chanol y Ddinas. Roedd yr Arweinydd yn croesawu unrhyw syniadau a allai fod gan bobl am atyniadau tymhorol drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau ar y Cyngor o ran safle gan fod yr adeilad hamdden newydd yn cael ei godi yn y safle yr oedd y Cynghorydd Whitehead wedi cyfeirio ato. Roedd yr Arweinydd yn awyddus i gadw ymwelwyr o fewn Canol y Ddinas ac yn hyderus y byddai'r Cyngor yn gallu cynnal y digwyddiadau hyn mewn cydweithrediad â'r Ardal Gwella Buses a rhanddeiliaid eraill.

Cynghorydd Hussain:
A allai'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr am y cymorth sydd ar gael i fusnesau.

Ymateb:
Tynnodd yr Arweinydd sylw at waith rhagorol y Tîm Cymorth Busnes o fewn y Cyngor. Roedd y tîm newydd greu ffilm fer ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r cymorth

oedd yn cael ei roi i fusnesau bach a'r grantiau a oedd ar gael, sef hyd at £250k. Roedd cymorth sylweddol ar gael yn y maes hwn.

Atodol:
A oedd LIC wedi cynnig cymorth ychwanegol ac, os felly, faint o gymorth?

Ymateb:
Gwnaed cyhoeddiad ar yr un diwrnod â'r Cyngor y byddai pecyn £45m ar gyfer busnesau bach ledled Cymru ar gael, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant i sectorau a oedd heb gael digon o gefnogaeth. Roedd hyn yn newyddion da i'r rhai a oedd yn ystyried sefydlu busnes bach yng Nghasnewydd. Y gobaith oedd y gallai £1.5m fod ar gael i Gasnewydd a £10m ar draws Cymru ar gyfer cyfrifon dysgu personol er mwyn helpu pobl i newid gyrfa. Roedd hyn yn gyfle gwirioneddol i gefnogi busnesau ac unigolion.

11. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Cwestiwn 1 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Mogford:
Ystyried Mesurau i Leihau Allyriadau (Gwenwynig) ar draws y Ddinas.

Gyda'r pwyslais newydd ar frwydro yn erbyn y newid hinsawdd yng Nghymru, a oes gan yr Aelod Cabinet gynllun neu weledigaeth i sicrhau bod modd sicrhau'r mynediad gorau posib i ganolfannau ailgylchu lleol o ran pellter a'r amser a gymerir i'w cyrraedd.

Enghraifft ymarferol o hyn yw canolfan ailgylchu Five Lanes ar yr A48. Mae llawer o drigolion yn gorfod teithio'n hirach o ran amser a phellter i ganolfan ailgylchu CDC a all fod yn daith gron o hyd at 20 milltir a mwy yn hytrach na theithio ychydig filltiroedd mewn rhai achosion.

O'i gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio i'r ganolfan ailgylchu agosaf, onid yw'r aelod cabinet hefyd yn gweld potensial i hynny leihau achosion o dipio anghyfreithlon yn ogystal â sicrhau gostyngiad buddiol mewn allyriadau o gerbydau?

Ymateb:
Penderfynodd Cyngor Sir Fynwy atal mynediad gan drigolion Casnewydd i'w Ganolfan Ailgylchu Five Lanes yn ôl yn 2019; ac er ei bod yn drueni gennym weld bod hyn yn achosi anghyfleustra i drigolion yn yr ardal, yn anffodus Cyngor Sir Fynwy sydd i benderfynu ynghylch rheolau mynediad i'w safleoedd ailgylchu, ac nid oedd gennym unrhyw reolaeth dros hynny.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd, yn manylu ar gynlluniau i adeiladu ail gyfleuster ailgylchu gwastraff y cartref, yn nwyrain y Ddinas. Hefyd, mae holl wastraff ailgylchadwy cyffredin y cartref yn cael ei gasglu'n wythnosol gan holl drigolion Casnewydd, yn ogystal â chasgliadau gwastraff cyffredin a gwastraff gardd. Gellir trefnu casgliad arbennig ar gyfer eitemau swmpus ar gais.

I gloi, nid ydym wedi gweld unrhyw gydberthynas rhwng tipio anghyfreithlon a mynediad i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae tipio anghyfreithlon yn weithgarwch troseddol a fyddai y tu hwnt i ystyriaeth y mwyafrif helaeth o'n trigolion. Cyflawnir cyfran sylweddol o dipio anghyfreithlon gan weithredwyr masnachol, nad ydynt yn cael defnyddio Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, ac y mae rheidrwydd cyfreithiol iddynt waredu eu gwastraff yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Atodol:
'Pe bai gan y Cyngor diddordeb mewn cytundeb i gyd-gyllido cyfleusterau fel Five Lanes yn y dyfodol, byddem yn barod i gymryd rhan yn y trafodaethau hynny'. Roedd hyn wedi'i

gynnwys mewn e-bost a gafwyd ar 25 Medi 2019 oddi wrth Gyngor Sir Fynwy. A oedd y cynnig hwn wedi'i dderbyn, ac a fyddai'n fuddiol i'r ddau gyngor rannu'r cyfleuster hwn.

Ymateb:
Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Cyngor Sir Fynwy wedi cau'r cyfleusterau hyn i drigolion yn 2019. Roedd sgyrsiau wedi cael eu cynnal yn y gorffennol, ond heb unrhyw arwyddion cadarnhaol.

Cwestiwn 2 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Kellaway:
Rwyf wedi derbyn nifer o negeseuon e-bost gan drigolion sy'n pryderu ynghylch perygl llifogydd yn Llanwern. Efallai eich bod yn cofio'r glaw a gafwyd dros y Nadolig ym mis Rhagfyr 2020 a achosodd ddifrod i gartrefi trigolion gan beri i rai trigolion orfod symud allan.

Pa sicrwydd y gallwch chi a'r weinyddiaeth ei rhoi i drigolion na fyddant yn gweld Ffos y Mynachod yn gorlifo eto, na'r llifogydd dilynol ym mhentref Llanwern a'r ardal ehangach, fel y gall yr holl drigolion o leiaf edrych ymlaen at Nadolig heddychlon a di-straen.

Ymateb:
Rydym wedi cynnal ymchwiliad teledu cylch cyfyng trylwyr i'r system ddraenio ar hyd Heol yr Orsaf, ac wedi gwneud llawer o waith i drwsio pibellau, cael gwared â gwreiddiau a jetio'r system i sicrhau ei fod yn perfformio'n well. Cafwyd digwyddiad glawiad uchel yn ddiweddar, ac nid oedd yn ymddangos fel pe bai wedi achosi unrhyw broblem o ran llifogydd yn yr ardal. Gallai hynny fod wedi achosi problemau cyn cwblhau'r gwaith adfer.

Mae'r broblem hon yn dibynnu i raddau helaeth ar allu'r dŵr i lifo o'r system i'r ffosydd draenio cysylltiedig. Os bydd y ffosydd draenio ymhellach i lawr o'r system yn parhau i weithio, rydym yn hyderus na ddylai'r trigolion brofi unrhyw broblemau yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi cyflwyno dau hysbysiad torri amod i Redrow er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn mynd rhagddo'n unol â'r manylion cymeradwy, yn enwedig o ran draenio. Roedd yn ofynnol i Redrow roi'r gorau i osod rhagor o wynebau caled a thynnu pridd nes cytuno a gweithredu ar y manylion draenio dŵr wyneb. Ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad yw dŵr wyneb yn llifo oddi ar y safle gan gynyddu problemau llifogydd yn y pentref.

Mae CDC yn ceisio cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ail-leinio peth o'r system bresennol ac i uwchraddio rhannau eraill er mwyn sicrhau perfformiad gwell yn yr ardal.

Atodol:
Ddwy neu dair blynedd yn ôl, rhoddodd y datblygwr £100k i'r Cyngor uwchraddio'r draeniau. Pam na ddefnyddiwyd yr arian i wneud y gwaith trwsio ynghynt er mwyn osgoi llifogydd y llynedd.

Ymateb:
Cafwyd cynllun yn wreiddiol yn 2005, ond ni chafodd y safle ei ddatblygu am nifer o flynyddoedd. Pan ddatblygwyd y safle, nid oedd y dyluniad gwreiddiol yn bodloni'r safonau cyfredol oherwydd y newid hinsawdd, a byddai'n gwrthdaro ag amryw o gyfleustodau. Ers hynny mae dyluniad mwy addas wedi cael ei ddatblygu.

Cwestiwn 3 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Routley:
A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas amlinellu ei weledigaeth wleidyddol a'i arweiniad o ran sut y mae'n mynd i adeiladu momentwm yn y dyfodol o ran diogelwch ffyrdd a'r amgylchedd yng Nghasnewydd.

Ymateb:

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion a nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, sy'n rhoi'r flaenoriaeth i bobl a'r newid hinsawdd wrth ystyried priffyrdd a thrafnidiaeth.

Gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ffyrdd, mae Casnewydd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r terfyn cyflymder arferol o 20mya mewn ardaloedd preswyl, sydd i fod i ddod i rym ledled Cymru yn 2023.

Y prif amcan yw gwneud ffyrdd a strydoedd yn fwy diogel i bob defnyddiwr, gan roi mwy o flaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol, fel y gwelwyd mewn prosiectau diweddar o amgylch y ddinas, gan gynnwys Queens Hill / Devon Place.

O ran yr amgylchedd a chyrraedd targed 2030 a tharged Sero Net 2050, mae'r awdurdod, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn darparu Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y ddinas, ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatgarboneiddio fflyd y Cyngor.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â mentrau i wireddu manteision dinas wyrddach er budd ein cymunedau, ac i annog bioamrywiaeth, yn enwedig yr amgylchedd trefol. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar ein strategaeth newid hinsawdd.

Atodol:
Roedd 30MYA ar Heol Magwyr, wedyn 50MYA, cyn dychwelyd i 30MYA gan achosi lefelau uchel o lygredd. Roedd hyn hefyd yn achosi rhwystredigaeth i yrwyr. A fyddai'r Dirprwy Arweinydd yn cefnogi'r cynllun gorchmynion traffig.

Ymateb:
Dim ond terfynau cyflymder 30MYA i 20MYA oedd dan ystyriaeth yn Adolygiad LlC. Roedd y terfynau cyflymder ar weddill y ffyrdd y cyfeiriwyd atynt wedi'u gostwng o 60MYA i 50MYA, a thybiwyd bod hynny'n briodol.

Cwestiwn 4 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd Forsey:
Mae llawer o drigolion wedi gwneud sylwadau ynghylch y gwaith adeiladu parhaus wrth yr orsaf reilffordd. A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am gynnydd pont droed Devon Place?

Ymateb:
Pwrpas prosiect pont Devon Place yw cymryd lle tanlwybr presennol, sy'n cysylltu Devon Place â Queensway o dan reilffordd Prif Linell Great Western.

Roedd y tanlwybr yn ddiolwg, ac yn denu llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys nifer o ymosodiadau a mygio difrifol. Nid oedd y tanlwybr yn ddiogel nac yn addas ar gyfer Dinas yn yr 21ain Ganrif. Yn ffodus, roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer pont newydd gyfun i gerddwyr a beicwyr; byddai hynny'n galluogi Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) i ddatgomisiynu'r tanlwybr presennol. Mae'r cyllid ar gyfer y datblygiad ac i'w weithredu wedi cael ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru drwy ei Chronfa Teithio Llesol, yn dilyn cyfres o gamau datblygu dyluniad a hyfywedd. Er nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto, rhagwelir y bydd y prosiect yn costio cyfanswm o £9 miliwn o'r gwaith datblygu hyd at ei gyflawni. Rhan o'r broses oedd cau hawl tramwy'r tanlwybr yn barhaol.

Un o'r elfennau mwyaf technegol oedd addasu'r llinell drydan a oedd wedi'i gosod uwchben. Nid oedd y llinell ond wedi cael ei chomisiynu'n ddiweddar. Dechreuodd y cyfnod adeiladu'n llawn ym mis Awst 2021. Roedd y gwaith cynnar yn cynnwys clirio'r safle, gosod hysbysfyrddau a thynnu cerflun Harvey Hood i lawr. Cafodd y cerflun, sy'n eiddo i Network Rail, ei drwsio cyn cael ei ailosod yn agos at brif fynedfa'r orsaf. Byddai rhannau pellach o'r

bont yn cyrraedd yn yr wythnosau nesaf wrth iddynt gael eu rhyddhau o weithdy'r gwneuthurwyr. Byddai gwaith yn dechrau i osod y strwythurau cynnal ar y ddaear drwy gydol mis Rhagfyr gan arwain at y prif waith i godi segmentau o lawr y bont. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy nifer o weithgareddau codi unigol dros gyfnod cau'r rheilffordd a oedd wedi'i amserlennu dros y Nadolig. Bydd y cyfnod cau yn dechrau ar noswyl Nadolig ac yn para am 72 awr. Dros y cyfnod hwnnw, bydd y strwythurau cynnal canolog, y lloriau a'r rhychwantau cyswllt yn cael eu codi i'w lle.

Ar ôl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd byddai'r esgynfeydd mynediad, y grisiau, y parapedau a'r canllawiau'n cyrraedd y safle i'w gosod fesul dipyn yn ystod y gwanwyn. Bydd gwaith ar dir y cyhoedd yn digwydd ar ôl hyn, a dylem weld y prif strwythur yn ei le erbyn diwedd mis Mawrth/Ebrill.

Cwestiwn 5 – Aelod Cabinet: Datblygu Cynaliadwy

Cynghorydd Mogford:
Mae cannoedd o astudiaethau wedi canfod effeithiau biolegol neu iechyd niweidiol yn sgil dod i gysylltiad ag ymbelydredd amledd radio ar ddwyseddau sy'n rhy isel i achosi gwres sylweddol. Nid oes gan y cyhoedd ar hyn o bryd unrhyw reswm i gredu bod 5G yn ddiogel.

Mae mastiau 5G yn dechrau ymddangos ym mhob man o amgylch Casnewydd. Mae eu cwmpas yn fyr iawn ac i bob pwrpas ond yn cynnwys ardaloedd o fewn eu 'llinell olwg'.

Faint o'r mastiau hyn y gellir disgwyl iddynt gael caniatâd cynllunio os mai'r cynllun yw sicrhau darpariaeth lawn neu sylweddol yng Nghasnewydd?

Yn dilyn ymlaen o hyn, a allai'r Aelod Cabinet geisio tawelu'r aelodau, wrth i 5G gael ei roi ar waith yng Nghasnewydd a'r cyffiniau, ei fod yn argyhoeddedig bod y risg i iechyd y cyhoedd yn is na throthwy a fyddai'n peri pryder? A yw wedi ymgysylltu eto â Senedd Cymru ar y mater hwn er mwyn cael sicrwydd drosto'i hun?

Ymateb:
Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cyfarpar telathrebu, gan gynnwys mastiau 5G, yn ddatblygiadau a ganiateir. Mae hyn yn golygu bod egwyddor y datblygiad wedi'i derbyn, ac na all yr awdurdod cynllunio lleol ond ystyried lleoliad ac ymddangosiad y cynnig. Ni fyddai goblygiadau iechyd posibl yn ystyriaeth o safbwynt cynllunio. Rheolir pob awdurdod cynllunio lleol gan ddeddfwriaeth gynllunio, ac ni all Cyngor Dinas Casnewydd wyro oddi wrth y ddeddfwriaeth honno.

Roedd pryderon ymbelydredd yn gysylltiedig â mastiau 5G yn berthnasol i reoliadau ar wahân. Roeddwn yn ymwybodol o adroddiadau yn y cyfryngau a rhai risgiau iechyd canfyddedig, ond hefyd yn ymwybodol o ymchwil wyddonol sydd wedi cyflwyno tystiolaeth gadarn i wrthbrofi'r honiadau hyn. Y llynedd, er enghraifft, ni chanfu corff rheoleiddio'r DU, Ofcom, unrhyw risgiau canfyddadwy yn ei brofion cyntaf ers rhoi technoleg 5G ar waith. Mae Sefydliad Iechyd y Byd o'r un farn.

Pan gyflwynir cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw i osod mast 5G i awdurdod cynllunio lleol, byddwn yn sicrhau bod y cais yn cynnwys tystysgrif yr ICNIRP (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio). Mae'r dystysgrif hon yn cadarnhau bod dyluniad y cyfarpar yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion canllawiau'r ICNIRP ar gysylltiad y cyhoedd ag amledd radio. Mae'r dystysgrif yn rhan angenrheidiol o'r broses, a hebddi, byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod ystyried y cais.

Nod y darparwyr rhwydwaith yw creu cyswllt cyflym iawn i ddinasyddion a busnesau yng Nghasnewydd, ac annog mewnfuddsoddi. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnal unrhyw ymgynghoriad ymlaen llaw â ni ynghylch eu cynigion ar gyfer rhannu mastiau, nac ynghylch nifer y mastiau newydd sydd eu hangen.

Atodol:
A allai'r Aelod Cabinet roi sicrwydd i'r aelodau, wrth roi 5G ar waith yn ardal Casnewydd, ei fod yn argyhoeddedig bod y risg i iechyd y cyhoedd yn is na'r trothwy a fyddai'n destun pryder, a bod yr Aelod Cabinet wedi ymgysylltu â'r Senedd i ofyn am y sicrwydd hwn.

Ymateb:
O ran y risgiau i iechyd y cyhoedd, roedd y Cyngor yn hyderus ar hyn o bryd, yn ôl yr holl ymchwil gan Ofcom, fod y dechnoleg yn ddiogel.

Cwestiwn 6 – Aelod Cabinet: Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynghorydd Marshall:
Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnwys ymrwymiad i leihau nifer y lleoliadau gofal cymdeithasol y tu allan i'r sir. A all yr Aelod Cabinet roi trosolwg o gynnydd yn erbyn yr amcan hwn?

Ymateb:
Dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf heriau'r pandemig, rydym wedi gallu lleihau'n ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae ein timau wedi gweithio i gefnogi teuluoedd ac i ddarparu'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal. Mae hyn wedi cynnwys datblygu ein tîm Babi a Fi i gefnogi rhieni sydd mewn perygl o golli eu plant oherwydd risg o niwed sylweddol cyn-geni, gweithredu Cynadleddau Grŵp Teulu i ganfod atebion i deuluoedd, a darparu tîm Ymateb Brys i ymyrryd mewn cyfnodau o argyfwng a chynnig cymorth bob awr o'r dydd. Rydym wedi gweithio i ddirymu nifer y Gorchmynion Gofal drwy gefnogi camau i ddod â phlant a theuluoedd yn ôl at ei gilydd, weithiau flynyddoedd ar ôl iddynt ddod i mewn i ofal yn wreiddiol. Rydym wedi helpu aelodau o'r teulu a gofalwyr maeth i ofalu am blant drwy ddefnyddio Gwarcheidiaeth Arbennig yn lle eu bod yn aros mewn gofal.

Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers mis Ebrill 2020.

Dyddiad	Cyfanswm PDG (gan gynnwys Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches)	Cyfanswm PDG (ac eithrio Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches)
31.03.2020	379	362
30.06.2020	378	359
30.09.2020	382	365
31.12.2020	376	362
31.03.2021	378	363
30.06.2021	373	359
30.09.2021	367	347

Ar 19 Tachwedd 2021 roedd gennym 366 o blant yn ein gofal. Gyda'n holl blant mewn gofal rydym wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r dull mwyaf effeithiol posibl i fodloni eu hanghenion. I rai plant bydd hyn yn golygu bod mewn gofal ond cael eu lleoli gydag aelodau o'r teulu, ac yn aml bydd hyn yn golygu eu lleoli y tu allan i Gasnewydd.

Mae gennym nifer fawr o ofalwyr maeth sy'n byw ychydig y tu allan i Gasnewydd hefyd, felly er bod y rheiny wedi'u cynnwys yn y categori 'lleoliadau y tu allan i'r sir', maen nhw'n dal yn agos at ysgol a chymuned wreiddiol y plentyn. Mae gennym hefyd nifer fach o blant wedi'u lleoli i'w mabwysiadu y tu allan i Gasnewydd, ac mae'r rhain eto wedi'u cynnwys yn rhan o'r grŵp o leoliadau y tu allan i'r awdurdod.

Ar 30 Mehefin 2021, roedd gennym 22 o blant wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Roedd holl aelodau'r grŵp hwn naill ai wedi'u lleoli gydag aelodau o'r teulu neu'n disgwyl am orchmynion mabwysiadu terfynol. Roedd 98 o blant eraill yng Nghymru ond y tu allan i Gasnewydd, a'r rhan fwyaf o'r rheiny yng Ngwent neu yng Nghaerdydd. Mae'r cyfanswm hwn o blant wedi bod yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, ond o edrych ar y manylion ceir rhesymau da dros leoli'r plant y tu allan i Gasnewydd.

Rydym wedi mynd ar drywydd y gwaith hwn er mwyn ceisio sicrhau, pan fydd angen gofal maeth neu ofal preswyl ar blant, y gallwn ofalu amdanynt yng Nghasnewydd. Yn raddol rydym wedi lleihau ein dibyniaeth ar Asiantaethau Maethu Annibynnol a gofal preswyl allanol. Byddwn yn parhau i wneud hyn gan mai dyma sut mae sicrhau diogelwch a llesiant plant, a bodloni eu hanghenion yn y dyfodol.

I'r perwyl hwn rydym wedi cynyddu a gwella darpariaeth gofal preswyl yng Nghasnewydd. Mae hyn yn cynnwys agor Rose Cottage a Rosedale, gwelliannau yn Forest Lodge ac Oaklands a chau Cambridge House. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i ddatblygu Windmill Farm a'r anecsys yn Rosedale. Dros y deunaw mis diwethaf, gostyngodd nifer y plant a leolwyd gyda darparwyr preswyl y tu allan i'r awdurdod o 24 i 18. Dyna oedd y canlyniadau gorau i'n plant, ond yn ogystal â hynny bu'n fodd i ostwng ein gwariant yn raddol ar y mathau hyn o leoliadau. Mae cyfanswm y gwariant wedi gostwng bron i £2 filiwn, ac mae peth o'r arian hwnnw wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu ein cartrefi ein hunain, gan sicrhau bod y canlyniadau i'n plant yn gwella'n sylweddol.

Mae staff Cyngor Dinas Casnewydd wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau bod gennym grŵp cadarn o ofalwyr maeth â phecyn cadarnhaol o gymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, materol ac emosiynol. Mae lansio Maethu Cymru wedi cael ei gydblethu â'n hymagweddau lleol at recriwtio gofalwyr maeth, a'u cadw ar ôl hynny.

Yn y deunaw mis diwethaf rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant a leolwyd gydag asiantaethau Maethu Annibynnol, o 72 i 58.

Mae'r gwaith a gyflawnir ym mhob maes o fewn y Gwasanaethau Plant yn cyfrannu at y gwaith hwn, ac felly'n cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad i leihau nifer y plant a osodir yn amhriodol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol y tu allan i'r sir.

Roedd y Maer a'r Faeres yn bresennol mewn digwyddiad Gofal Maeth diweddar, ac yn hapus i gefnogi'r fenter hon.

Nid oedd unrhyw gwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau. Gofynnodd y Maer felly i'r aelodau nodi dyddiad y cyfarfod nesaf, a chan nad oedd unrhyw fater pellach i'w drafod, datganodd fod y cyfarfod ar ben.

12. **Cwestiynau i Gadeiryddion Pwyllgorau**

13. **Live Event (Click on the link below to view the Council Meeting)**

The meeting terminated at Time Not Specified